

Diffinio safleoedd cyflogaeth

Yn ystod Sesiwn Gwrandawriad 5 fe ofynnwyd am eglurhad pellach ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng tir gyflogaeth (gwag) sydd yn cael ei warchod a thir cyflogaeth (gwag) a ddynodir.

Codwyd y pwynt hwn yn benodol mewn perthynas â'r safleoedd cyflogaeth yng Ngaerwen sydd wedi cael eu hadnabod fel safleoedd cyflogaeth i'w gwarchod a safleoedd cyflogaeth i'w dynodi o fewn y Cynllun.

Safleoedd a Warchodir - Mae'r safleoedd a warchodir yn cynnwys y ddarpariaeth o isadeiledd angenrheidiol er mwyn hwyluso datblygiad y safle, hynny yw ffordd a gwasanaethau. Ymhellach mewn nifer o achosion mae'r tir gwag a warchodir yn gysylltiedig hefo'r defnydd cyflogaeth bresennol ac yn rhan o'r caniatâd cynllunio sydd wedi ei roddi ar y safle. Er enghraifft mae'r safle a warchodir yng Ngaerwen yn cynnwys dipyn o dir gwag o amgylch safle'r lladd-dy. Mae'r tir hyn yn gysylltiedig â defnydd y lladd-dy (defaid yn pori yno) a chan hynny ystyrir yn briodol i'w hadnabod fel safle a warchodir.

Safleoedd a ddynodir- Mae'r safleoedd a ddynodir yn llecynnau o dir gwag sydd ddim yn cynnwys y gwasanaethau/isadeiledd sydd yn angenrheidiol ar gyfer datblygu'r safle. Ymhellach nid yw'r safleoedd hyn wedi derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth ac nid ydym yn dir sydd yn gysylltiedig â defnydd cyflogaeth bresennol.

Pwynt Gweithredu 3 (S5/PG3) – Polisi CYF1 – Dynodiadau cyflogaeth C14 a C15

Darparu copi o rannau perthnasol Adroddiad yr Arolygydd i Gynllun Datblygu Unedol Môn (wedi ei stopio) sydd yn ymwneud hefo safle cyflogaeth Lledwigan a thir yr Hufenfa yn Llangefni (safleoedd C14 a C15 ym Mholisi CYF 1 yn y drefn honno).

Ymateb y Cynghorau:

Gweler Atodiad 1